

Teitl y Swydd: Cyfarwyddwr Technegol Morlais	Lleoliad: Yn hyblyg, fodd bynnag, mae'r swydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y swydd fynd i gyfarfodydd rheolaidd yn Ynys Môn ac ar draws Gogledd Cymru.	Cyflog: £66,000 + Pensiwn Budd Diffiniedig (4 diwrnod pro rata)
Yn Atebol i: Rheolwr Gyfarwyddwr	Yn gyfrifol am: Tîm swyddfa Morlais (4)	
Diben y Swydd: Cymryd cyfrifoldeb am yr holl weithgareddau technegol sy'n ymwneud â phrosiect Morlais.		
Cyfrifoldebau	Sgiliau / Profiad	
<p>Rheoli staff: Cefnogi'r timau/swyddogion prosiect/rheolwyr prosiect yn unol â systemau'r cwmni, datblygu gweithdrefnau a phrosesau presennol, dyfeisio Dangosyddion Perfformiad Allweddol a rheoli perfformiad y tîm er mwyn sicrhau bod unigolion a thimau yn cyflawni o fewn eu rolau ac yn cyfrannu at nodau ac amcanion ehangach Menter Môn.</p> <p>Rheoli a monitro'r prosiect: Arwain gweithgareddau technegol o fewn y prosiect Morlais. Archwilio gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag ynni a allai ychwanegu gwerth at y prosiect Morlais a gwella portffolio ynni Menter Môn. Byddai hyn yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i Hwb Hydrogen Caergybi.</p> <p>Cyflawni'r prosiect: Cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am brosiectau, monitro diogelwch, perfformiad, rhaglen, gwerth am arian a sicrhau bod cynlluniau'n cael eu cyflawni mewn pryd, i safonau a gydnabyddir yn rhyngwladol a bod trosglwyddiadau'n cael eu cyflawni gyda'r holl wybodaeth ofynnol yn cael ei darparu i gleientiaid, rhanddeiliaid a chyllidwyr.</p>	<p>Hanfodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweithio ar lefel uchel mewn Sefydliad Ynni Adnewyddadwy, yn ddelfrydol ar lefel cyfarwyddwr. Gyda phortffolio elw a cholled a chyfrifoldebau diogelwch. • Gweithio gyda rheoleiddwyr, llywodraethau a rhanddeiliaid eraill. • Adeiladu a Gweithredu ffermydd gwynt ar y môr neu brosiectau Ynni Adnewyddadwy sylweddol eraill sy'n gysylltiedig â 33KV a mwy. • Cefndir mewn Peirianeg • Gweithio gyda Rheolau Diogelwch Foltedd Uchel ac offer Foltedd Uchel. • Profiad o gyflwyno prosiectau ynni adnewyddadwy • Gwybodaeth am farchnadoedd cynhyrchu pŵer ac ynni confensiynol a'r cyd-destun ar gyfer ynni adnewyddadwy yng nghymysgedd ynni'r DU. • Dealltwriaeth ymarferol dda o lechyd a Diogelwch mewn perthynas â gweithgareddau adeiladu a gweithredol. • Sgiliau cyfathrebu rhagorol • Profiad o weithio gyda'r Grid Cenedlaethol a Scottish Power neu Weithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu (DNOs) eraill • Comisiynu prosiectau'n ymwneud â phŵer. 	

<p>Adrodd am brosiectau: Paratoi a chyflwyno adroddiadau i'r Rheolwr Gyfarwyddwr ac eraill fel cyllidwyr prosiect yn ôl yr angen, i gynnwys gwybodaeth ariannol a dangosyddion perfformiad yn ôl yr angen.</p> <p>Datblygu prosiectau: Cefnogi'r Cyfarwyddwyr a'r rheolwyr eraill a rhannu profiad a gwybodaeth i gefnogi eu rolau yn ôl yr angen.</p> <p>Llywodraethu corfforaethol: Chwarae rôl weithredol fel Cyfarwyddwr er mwyn cyfrannu at gyfeiriad strategol y Cwmni. Ymgymryd ag archwiliadau technegol. Ymchwilio i ddigwyddiadau os oes angen, gan ddefnyddio technegau dadansoddiad o wraidd y broblem.</p> <p>Cynrychioli'r cwmni: Mabwysiadu dull gweithredu rhagweithiol i ddatblygu cysylltiadau â rhanddeiliaid allanol er mwyn hyrwyddo'r cwmni a datblygu ei enw da yn lleol a rhyngwladol. Hyrwyddo cysylltiadau presennol â CBI, Ynni Morol Cymru, Cymdeithas Ynni Dŵr Prydain, awdurdodau lleol, adrannau'r llywodraeth, addysg ac eraill.</p> <p>Iechyd a Diogelwch: Cymryd cyfrifoldeb am Iechyd a Diogelwch gyda'r prosiect Morlais a'r cwmni'n gyffredinol.</p>	<p>Dymunol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Profiad o ddatblygu prosiect • Systemau rheoli gwaith cyfrifiadurol • Creu a rheoli dogfennau ffurfiol • Profiad o adeiladu llongau neu beirianeg drwm arall • Dealltwriaeth o ddiwylliant lleol. • Sgiliau Cymraeg (mae Menter Môn yn gwmni dwyieithog ac mae'r ddwy iaith yn cael eu defnyddio mewn gweithrediadau o ddydd i ddydd) 	
	Cymwysterau	
	<p>Hanfodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Addysg hyd at lefel gradd neu brofiad sylweddol sy'n berthnasol i'r swydd • Aelodaeth o Sefydliad Peirianeg ac wedi cofrestru ar lefel I Eng neu uwch. 	<p>Dymunol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diploma mewn Rheoli
Nodweddion	Arall	
<ul style="list-style-type: none"> • Atebol • Trefnus 	Trwydded yrru DU lawn a mynediad at eich car eich hun	Ie

<ul style="list-style-type: none">• Agos-atoch• Ymroddedig	Parodrwydd i weithio y tu allan i oriau gwaith arferol	le
	Parodrwydd i deithio	le